This document is available in English

Polisi Corfforaethol - 08

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru parthed

Ymateb Gweithredol

(Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol: PSTC Darparu Gwasanaethau)

Mae'r Gwasanaeth yn adnabod taw un o'i brif swyddogaethau a'i ddyletswyddau statudol yw darparu ymateb effeithiol a phroffesiynol i ddigwyddiadau brys.

Mae'r dyletswyddau statudol hyn yn cynnwys:

- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004
- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004

Mae yna hefyd ddisgwyliad cyhoeddus ac yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn derbyn dyletswydd foesol i ymateb i argyfyngau anstatudol lle bydd gallu ac adnoddau'n caniatáu.

Mae'r argyfyngau hyn yn cynnwys, ond ni chyfyngir hwynt i:

- Achubiadau anifeiliaid
- Cymorth i gleifion bariatrig
- Achubiadau llifogydd a dŵr
- Ymateb i argyfyngau meddygol

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws holl feysydd ei fusnes:

- I gynnal stad o barodrwydd i alluogi baich ymateb amserol a digonol i unrhyw ddigwyddiadau a all godi yn unol ag unrhyw safon gwasanaeth a gytunwyd
- I sicrhau iechyd a diogelwch ymladdwyr tân a'r cyhoedd wrth fabwysiadu systemau gwaith diogel, offer a rhaglenni hyfforddi priodol a darparu cudd-wybodaeth weithredol a gwybodaeth risg fel bo'n briodol
- I weithio â phartneriaid i gynnal galluogrwydd i ymateb i bob math o brif ddigwyddiadau ar raddfa fawr
- I leihau'r effaith ar yr amgylchedd sy'n deillio o'n gweithgareddau
- I wneud trefniadau i sicrhau parhad busnes

Llofnodwyd:..... Dyddiad: 01/12/2015.....
PSTC Darparu Gwasanaethau